

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU**

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif/phrif weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2013. Mae wedi ei lunio er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Cynghorydd: David A Bithell

Plaid: Annibynnol

Ward: Johnstown

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau canlynol:

1. Bwrdd Gweithredol
2. Bwrdd Gweithredol Ymddiriedolaethau Corfforaethol
3. Bwrdd Newid
4. Gweithgor Adolygu Rheoli Gwleidyddol
5. Y Cyngor
6. Panel Tâl a Gwobrwyo
7. Gweithgor Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol
8. Arweinydd Grŵp Annibynnol Wreccsam

Rwyf yn aelod o'r pwyllgorau allanol canlynol:

1. Cyngor Cymuned y Rhos
2. Pwyllgor Rheoli Canolfan Adnoddau Johnstown
3. Llywodraethwr Ysgol Iau Johnstown
4. Llywodraethwr Ysgol Fabanod Johnstown (Cadeirydd)
5. Cyd-Gadeirydd Grŵp Cyswllt Hafod

Adran 2: Gweithgarwch Etholaeth

1. Dros y deuddeg mis diwethaf rwyf wedi bod yn gweithio i leihau cyflymder traffig yn y pentref o 30mya i 20mya a chynorthwyo i gael cyllid allanol ar gyfer y prosiect hwn. Rwyf hefyd wedi gweithio i leihau cyflymder o gyffordd Stryt Las i Stad Diwydiannol Vauxhall o 40mya i 30mya.
2. Gwaith dyddiol ar nifer fawr o achosion unigol rhai ohonynt yn cynnwys ceisiadau tai a chwynion i'r Cyngor.
3. Gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a chynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu i drafod pryderon trigolion ynglŷn â throstedd ac anrhefn.
4. Fel rhan o'r pwyllgor rheoli ar gyfer Canolfan Gymunedol Johnstown parhau i weithio i gynyddu'r archebion er mwyn diwallu'r galw lleol.
5. Parhau i gefnogi tenantiaid gyda chynlluniau parcio oddi ar y ffordd yn Stad Moreton.
6. Wedi gweithio gyda Scottish Power a Chyngor Wreccsam i dynnu ceblau pŵer ym Mharc Gwledig Stryt Las yn dilyn marwolaeth elyrch.
7. Yn fy rôl fel Llywodraethwr Ysgol gweithio'n agos gydag ysgolion lleol i gynorthwyo, cefnogi a hyrwyddo ysgolion yn Johnstown. Yn bennaf Ysgol Fabanod Johnstown fel Cadeirydd.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

1. Derbyn cefnogaeth a chyllid gan gwmni lleol Brother ar Stad Ddiwydiannol Vauxhall i gefnogi cais Cymru yn ei Blodau Johnstown. Roedd Cyngor Cymuned y Rhos yn cefnogi hyn a buom yn gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau lleol a gwella amgylchedd y pentref. Ymgeisiodd Johnstown yng Nghategori Tref Wledig Fechan a derbyn Gwobr "Silver Guilt" sy'n cynnwys nifer o feysydd o lwyddiant. Derbyniodd Johnstown drydydd yn y categori a derbyn gwobr teilyngdod.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

1. Wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddiant gan y cyngor ynghyd â gweithdai amrywiol yn ystod y flwyddyn.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

1. Fel Arweinydd Grŵp Annibynnol Wrecsam rwy'n cyfarfod yn fisol gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion y cyngor i sicrhau fod aelodau'r grŵp yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r materion cyfredol a chodi unrhyw feysydd pryder penodol.
2. Cyfarfod yn rheolaidd gyda rhai o Aelodau Seneddol Gogledd Cymru i drafod materion allweddol Llywodraeth Cymru a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar lywodraeth leol yn Wrecsam.
3. Ymddwyn fel siaradwr ar ran Grŵp Annibynnol Wrecsam ar faterion allweddol mewn cyfarfodydd, y Cyngor llawn gan gynnwys y cyfryngau.
4. Mynychu Pwyllgorau Craffu nad wyf yn aelod ohonynt i fonitro gweithgareddau'r cyngor a rhaglenni gwaith.